Helo a chroeso i rifyn Hydref Newyddion Datgeliad y DBS, sydd fel y gwelwch yn dod gydag enw ychydig yn wahanol wrth i ni ddatblygu ein cyhoeddiadau. Yn rhifyn mis diwethaf, fe soniodd Adriènne Kelbie am newidiadau diweddar ym myd Datgeliadau, sy'n ysgogi angen clir - ac yn wir, galw gan ein cwsmeriaid - i gynhyrchu cyngor rheolaidd am faterion dydd i ddydd allai fod yn bwysig i chi.
Fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad) DBS mae hyn yn gyfan gwbl o fewn fy nghylch gorchwyl i, ac rwyf wir yn edrych ymlaen at ddatblygu'r cylchlythyr hwn – a gobeithio y gallaf ddibynnu ar eich cymorth a chefnogaeth i wneud hyn. Os gallwch chi sbario'r amser wedi darllen y rhifyn cyntaf hwn, anfonwch eich adborth i mi, gan gynnwys unrhyw syniadau ar gyfer erthyglau yn y dyfodol. Gallwch ysgrifennu ataf yma: customerservices@dbs.gsi.gov.uk

Yn ystod yr haf, fe gyflwynom nifer o newidiadau arwyddocaol. Roedd hidlo hen a mân euogfarnau o ddiwedd Mai yn un newid, ac un arall oedd y Gwasanaeth Diweddaru, a lansiwyd ar 17 Mehefin, gan gyflwyno'r angen i gynnwys 'gweithlu' ar ffurflenni cais DBS. Ar yr un diwrnod, roedd yna hefyd newid i dystysgrifau sengl ymgeisydd yn unig. Mae hyn wedi galw am lawer o newid gweithredol i bawb ohonom, ac mewn gwirionedd, rydym yn dal i deimlo effaith rhai o'r newidiadau hyn wrth i ni symud i fisoedd yr hydref.

Yn benodol, mae rhai o heddluoedd y wlad wedi ei chael yn anodd ymdopi gyda'r newidiadau i bolisi a gweithdrefn, ac yn anffodus nid oedd yn helpu fod y newidiadau hyn wedi cyrraedd ar adeg o'r flwyddyn pan mae niferoedd ceisiadau yn uchel. O ganlyniad, mae nifer o heddluoedd yn profi ôl-groniadau o ran clirio ceisiadau o fewn eu hamserau prosesu arferol. Mae'n wir ddrwg gennym am hyn, ac rydym yn gweithio'n galed gyda'r heddluoedd a effeithiwyd i leihau'r amser mae ceisiadau yn ei dreulio yn ein system. Hoffem eich sicrhau fod yr heddlu'r un mor awyddus â ninnau i ddychwelyd i lefelau gwasanaethau mwy arferol ac yn gwneud ymdrech i wneud yn union hyn. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn y rhifyn hwn.

Byddwn yn eich diweddaru am ein cynnydd mewn cylchlythyrau yn y dyfodol, ond yn y cyfamser, mae yna nodyn atgoffa yn y rhifyn hwn am olrhain cynnydd ceisiadau unigol. Bydd cyflwyno ceisiadau yn electronig yn defnyddio ein gwasanaeth e-Bulk yn gwneud gwahaniaeth mawr i amserau prosesu, a byddwch hefyd yn cael gwybod ar unwaith os yw tystysgrif wedi ei chyhoeddi yn 'glir' o unrhyw wybodaeth heddlu.

Ar nodyn mwy positif, rydym yn dal i fodloni ein targed allweddol i gyhoeddi 75 y cant o'r holl Ddatgeliadau o fewn 14 diwrnod i'r derbyn, sef y llinyn mesur cyffredinol ar gyfer profiad cwsmeriaid.

Diolch i chi am ddarllen, ac rwy'n edrych ymlaen at eich cadw mewn cysylltiad â'r holl bethau fydd yn eich helpu i gyflawni eich nodau yn eich gweithle.
**Sue Quigley**

**Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad)**

---

## A yw'ch ceisiadau wedi eu heffeithio gan oedi heddluoedd?

Rydym yn gwerthfawrogi'ch amynedd dros y misoedd diwethaf ar ôl i ni weithio'n galed i integreiddio newidiadau gweithredol arwyddocaol. Mae pethau'n dechrau setlo, ond mae gwaith i'w wneud eto cyn y gallwn ailafael mewn lefelau gwasanaeth arferol. Ond hoffem eich sicrhau, rydym yn gweithio'n galed iawn i wneud hynny.

Creodd darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau a gyflwynwyd ar 17 Mehefin hefyd lawer o newid i heddluoedd - yn ogystal â chynnydd yn y nifer o achosion a dderbyniwyd. Roedd hyn yn cyd-daro â'n hamser prysuraf o'r flwyddyn pan oedd niferoedd ceisiadau ar eu huchaf.

Gwyddom fod hyn wedi arwain at oedi gyda rhai ceisiadau, ac y bydd yr oedi yma yn cael effaith uniongyrchol arnoch chi. Rydym yn ymddiheuro am hyn, ac yn gobeithio y gallwch fod yn amyneddgar gyda ni wrth i ni ddechrau gweld gwelliannau.

I gael gwybod a yw'ch heddlu lleol yn profi oedi, cliciwch yma.

I gael gwybod mwy am berfformiad yr heddlu yn gyffredinol, cliciwch yma.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r heddlu ar gynlluniau adfer, ac erbyn diwedd Medi, roedd y rhan fwyaf o heddluoedd yn bodloni'r targed dychwelyd 18 diwrnod, sy'n ein helpu i fodloni ein hamrywiol Safonau Gwasanaethau Cyhoeddus. Er bod hyn yn newyddion positif, mai rhai heddluoedd yn methu clirio eu holl ôl-groniad ar hyn o bryd, ond rydym mewn cysylltiad rheolaidd â'r heddluoedd hyn sydd â chynlluniau i glirio'r casgliad o waith.

O fis Tachwedd, rydym yn disgwyl gweld y bydd rhai o'r heddluoedd a effeithiwyd yn dechrau adennill tir, ond rhagwelwn y bydd yn rhai misoedd cyn i ni weld adferiad llawn gan yr holl heddluoedd. Gofynnwn i chi fod yn amyneddgar gyda ni yn y cyfnod hwn, ac os nad yw'r ymgeiswyr yn cyflwyno eu tystysgrifau DBS, gall hyn fod oherwydd bod eu ceisiadau wedi eu hoedi wrth brosesu, felly gofynnwn i chi ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain ar-lein i gael gwybod ar ba gam maent wedi cyrraedd (gweler isod am fanylion).

---

## Tracio ar-lein: y ffordd gyflymaf i dracio cais

Fe wyddom fod amser yn werthfawr, a dyna pam mae tracio ar-lein yn ffordd arbennig o ddilyn trywydd ceisiadau.

**Sut ydw i'n gwneud hyn?**
Dim ond cyfeirnod y cais fyddwch chi angen - rhif 'F' ar gyfer ceisiadau papur neu rif 'e' ar gyfer ceisiadau ar-lein – a dyddiad geni'r ymgeisydd.

Mae nifer o bobl yn ffonio'n canolfan alwadau i wirio cynnydd eu cais; mae'r ymholiadau hyn yn cyfateb i 40% o'n galwadau. O gymharu, mae'r gwasanaeth tracio ar-lein un clic i ffwrdd, ar gael 24 awr y dydd ac yn rhoi canlyniad ar unwaith; Felly dim gwastraffu amser!

Gallwch olrhain ceisiadau lluosog ac archebu ffurflenni cais gwag yn defnyddio'r cyfleuster hwn. Gellir dod o hyd i'r ddolen yn ein canllaw, 'trefnu gwiriadau fel cyflogwr', ar www.gov.uk/dbs.
Bydd defnyddio ein gwasanaethau ar-lein, yn arbennig yn ystod cyfnodau o alw mawr, yn sicrhau'ch bod yn cael y lefel ragorol o wasanaeth yr ydych yn ei ddisgwyl gennym.

---

## Cyfeirnodau ceisiadau: gwnewch nodyn ohonynt a'upasio ymlaen

Mae gan ein ffurflenni cais rif cyfeirnod unigryw: rhif 'F' ar y fersiwn bapur neu rif 'e' yn nerbynneb cydnabyddiaeth y ffurflen gais ar-lein a elwir yn 'crb003'.

Mae'n bwysig iawn fod y sawl sy'n cyflwyno'r cais yn gwneud nodyn o'r rhif hwn, ac yn ei basio ymlaen i'r ymgeisydd gan esbonio'r manteision.

**Y manteision**

- Gall ymgeiswyr ddefnyddio eu cyfeirnod cais i ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn rhoi mwy o amser iddynt ymuno, oherwydd os byddant yn aros nes y cyhoeddir eu Tystysgrif DBS, dim ond 14 diwrnod sydd ganddynt i danysgrifio o'r dyddiad pan gyhoeddwyd y dystysgrif.

- Gallant hefyd ddefnyddio eu cyfeirnod i olrhain cynnydd eu cais yn gyflym yn defnyddio'r gwasanaeth olrhain ar-lein.

**Y camau nesaf**

Gwnewch nodyn ogyfeirnod y cais pan fyddwch yn cwblhau a llofnodi'r fersiwn bapur, neu pan fydd y ffurflen ar-lein electronig wedi ei chyflwyno ac y byddwch wedi derbyn y dderbynneb cydnabyddiaeth, gan ei basio ymlaen i'r ymgeisydd ei ddefnyddio hefyd.

**Sylwer**: **Nid oes** gan ffurflenni cais Cymraeg gyfeirnod ffurflen. Ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi defnyddio ffurflen gais Gymraeg, dim ond gyda'ch rhif Tystysgrif DBS allwch chi ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru.

Os oes gennych ffurflen gais Gymraeg, ac yr hoffech ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain i olrhain ei gynnydd, cysylltwch â'n canolfan alwadau a byddwn yn rhoi cyfeirnod y ffurflen i chi ar gyfer olrhain ar-lein yn unig. Mae'n bwysig nodi **na ddylid** defnyddio'r rhif hwn i danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru.

---

## e-ganllaw: paratoadau terfynol

Mae'n bleser gennym allu cyhoeddi y bydd ein e-ganllaw newydd yn cael ei lansio ar ein gwefan ar 15 Tachwedd. Nod y canllaw yr ydym yn ei gyflwyno yw cymryd lle ein digwyddiadau hyfforddiant er mwyn helpu i leihau'r nifer o ffurflenni cais a wrthodir gennym o ganlyniad i wallau ac esgeulustod wrth lenwi.

Bydd y dyddiad lansio yn cyd-fynd â rhifyn Tachwedd Newyddion Datgeliad y DBS a byddwn yn darparu dolen i'r canllaw ac awgrymiadau defnyddiol yn ein rhifyn nesaf.

Bydd rhai ohonoch yn ddigon ffodus i gael rhagolwg pan fyddwn yn anfon yr e-ganllaw at lofnodwyr sydd newydd gofrestru trwy gydol mis Hydref. Bydd adborth gan y rhai sy'n edrych ar y rhagolwg yn ein helpu i fireinio'r cynnyrch terfynol.

Rydym yn gyffrous iawn am rannu'r e-ganllaw hwn ac yn gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddefnyddio. Credwn y bydd yn offeryn defnyddiol iawn i helpu atal ffurflenni DBS rhag cael eu dychwelyd i chi o ganlyniad i wallau y gellid eu hosgoi.

---

## Beth yw gwirfoddolwr?

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith o Gyrff Cofrestredig i ddelio â materion wrth iddynt godi. Un broblem sy'n codi dro ar ôl tro o ran gweithgaredd cydymffurfiad y Cyrff yw defnydd amhriodol o geisiadau gwirfoddolwyr rhad ac am ddim. Pan fydd Corff yn cyflwyno cais gwirfoddolwr amhriodol, mae'n creu baich ariannol ar ymgeiswyr eraill

sy’n talu ffioedd, ac yn groes i Amodau Cofrestru’r Corff. Byddwn yn gweithredu os credwn fod ceisiadau gwirfoddolwyr amhriodol yn cael eu cyflwyno ar bwrpas, neu heb i’r Corff wneud ymgais resymol i sicrhau fod y cais yn cael ei wneud ar ran gwirfoddolwr, ac/neu yn cael ei wneud gyda’r bwriad o osgoi talu.

Mae’r DBS yn diffinio ‘gwirfoddolwr’ fel:

‘Rhywun sy’n cymryd rhan mewn gweithgaredd sy’n golygu treulio amser yn ddi-dâl (ac eithrio ar gyfer teithio a mân dreuliau eraill) yn gwneud rhywbeth sydd o fudd i drydydd parti yn hytrach na neu yn ogystal â pherthynas agos.'

Sicrhewch fod ceisiadau yn bodloni ein diffiniad o wirfoddolwr cyn dewis y blwch cadarnhau gwirfoddolwr yng Nghwestiwn x68 ar y ffurflen gais.

I fod yn gymwys am wiriad gwirfoddolwr rhad ac am ddim, ni ddylai’r ymgeisydd:

- Fanteisio’n uniongyrchol ar y safle y mae’r cais DBS yn cael ei gyflwyno ar ei gyfer.
- Derbyn unrhyw daliad (ac eithrio ar gyfer teithio a mân dreuliau eraill a gymeradwyir).
- Fod ar leoliad gwaith.
- Fod ar gwrs sy’n gofyn iddynt wneud y swydd hon.
- Fod mewn swydd hyfforddai a fydd yn arwain at rôl llawn amser/cymhwyster.

Mae’n datgan yn glir ar y ffurflen gais: ‘*Trwy roi croes yn y blwch cadarnhaol* (yn adran 68) *rydych yn cadarnhau bod y swydd yn bodloni diffiniad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o gais rhad ac am ddim gwirfoddolwr. Sylwer y gall y DBS gasglu’r ffi ymgeisio os yw blwch 68 wedi ei nodi ar gam, a gallai hyn arwain at ganslo eich cofrestriad DBS'.*

Cymrwch funud i ddarllen trwy’r astudiaethau achos yn y tabl canlynol yn seiliedig ar wallau cyffredin ar gyfer gwirfoddolwyr.

| **Swydd yr ymgeisiwyd ar ei chyfer** | **Statws ‘gwirfoddolwr’ y DBS** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| **Myfyrwyr yn mentora/dysgu plant mewn ysgolion (tair senario)**<br><br>**Senario 1** Ble nad oes mantais | **Senario 1** Cymwys | **Senario 1** Mae’r gweithgaredd |

| | | |
|---|---|---|
| i'r myfyriwr ac eithrio i ennill profiad, datblygu sgiliau a chyfoethogi eu CV.<br><br>**Senario 2** Ble mae'r myfyriwr yn derbyn cymhwyster neu gredyd tuag at gymhwyster o ganlyniad uniongyrchol i'w weithgaredd gwirfoddol.<br><br>**Senario 3** Ble mae'r myfyriwr yn derbyn cymhwyster neu gredyd tuag at gymhwyster a chyfle i ennill bwrsariaeth neu daliad di-dreth. | **Senario 2** Anghymwys<br><br>**Senario 3** Anghymwys | hwn yn gyfan gwbl wirfoddol, heb dâl ac wedi ei anelu'n bennaf at ddarparu gwasanaeth i drydydd parti.<br><br>**Senario 2** Mae'r gweithgaredd yn gwbl wirfoddol, heb dâl ac yn darparu gwasanaeth i drydydd parti – **ond** mae hefyd yn darparu budd uniongyrchol i'r myfyriwr.<br><br>**Senario 3** Mae'r gweithgaredd yn gwbl wirfoddol, heb dâl ac yn darparu gwasanaeth i drydydd parti; **ond** mae hefyd yn darparu budd i'r myfyriwr a chyfle i dderbyn bwrsariaeth neu dâl di-dreth. |
| **Rhieni yn helpu mewn ysgol** | Cymwys | Mae'r gweithgaredd hwn yn gyfan gwbl wirfoddol, heb dâl ac wedi ei anelu'n bennaf at ddarparu gwasanaeth i drydydd parti. |
| **Arweinyddion Sgowtiaid/Geidiau** | Cymwys | Mae'r gweithgaredd hwn yn gyfan gwbl wirfoddol, heb dâl ac wedi ei anelu'n bennaf at ddarparu gwasanaeth i drydydd parti. |
| **Rhieni mabwysiadol ac aelodau eraill y cartref dros 18 oed.** | Cymwys | Mae'r gweithgaredd hwn yn gyfan gwbl wirfoddol, heb dâl ac wedi ei anelu'n bennaf at ddarparu gwasanaeth i drydydd parti. |
| **Rhieni maeth ac aelodau eraill** | Anghymwys | Mae'r gweithgaredd hwn yn |

| | | |
|---|---|---|
| **yr un cartref sydd dros 18 oed** | | gyfan gwbl wirfoddol **ond** mae rhieni maeth fel arfer yn derbyn taliadau am y gweithgareddau hyn. Felly fe bennir nad oes gan ofalwyr maeth nac aelodau eraill o'r cartref hawl i wiriadau am ddim. |
| **Unigolion yn gweithio dramor ar brosiectau gwirfoddol** | Anghymwys | Mae'r gweithgaredd hwn yn gyfan gwbl wirfoddol ac wedi ei anelu'n bennaf at ddarparu gwasanaeth i drydydd parti. **Ond** mae'r unigolion hyn fel arfer yn derbyn taliad o gyflog lleol, a thaliadau cyfandaliad tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel "costau teithio a chostau eraill sy'n codi". |
| **Myfyriwr Meddygol / Dysgu / Gwaith Cymdeithasol ar leoliad gwaith, yn rhan o hyfforddiant** | Anghymwys | Mae'r gweithgaredd hwn yn ofyniad cwrs, fel arfer gyda thâl ac yn bennaf wedi ei gyflawni i fod o fudd i'r myfyrwyr eu hunain. |

Os ydych chi angen unrhyw ganllaw pellach, byddwn yn hapus iawn i helpu. Anfonwch e-bost at customerservices@dbs.gsi.gov.uk

---

## Offeryn Cymhwyster Ar-lein

Fe wyddom o'n hymholiadau fod canllaw yn ddefnyddiol wrth i chi benderfynu pa lefel o wiriad ydych chi angen gofyn amdano i wneud cais am swyddi.

Rydym wedi gwrando ar eich adborth ac wedi bod yn brysur yn datblygu offeryn cymhwyster ar-lein i ddarparu'r canllaw atodol yr ydych ei angen. Rydym yn dal yn y cyfnod cynllunio. Ond gobeithiwn y bydd gennym brototeip gweithredol yn barod yn fuan – a dyma ble gallwch chi helpu.

A ydych chi awydd ein helpu i brofi'r offeryn o flaen llaw i'w lansio? Gyda'ch cymorth chi, gobeithiwn gyflwyno cynnyrch a fydd yn cefnogi sefydliadau ac unigolion gydag ymholiadau cymhwyster.

Pan fydd wedi ei gwblhau, bydd yr offeryn yn eich tywys at ganlyniad cymhwyster cyflym yn seiliedig ar eich atebion i nifer o gwestiynau. Bydd yr offeryn yn eich darparu â llwybr archwilio gydag opsiwn i argraffu hefyd.

Os oes gennych ddiddordeb, cofrestrwch yma: customerservices@dbs.gsi.gov.uk

---

## Diweddariad canllaw cymhwyster

Mae'canllaw i gymhwyster y DBS' wedi ei ddiweddaru ar ein gwefan. Mae'r canllaw hwn yn eich helpu i sefydlu a yw'r gyfraith yn caniatáu gwiriad cofnod troseddol trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer rôl yr ydych yn recriwtio ar ei chyfer (neu eisoes wedi) yn eich sefydliad. Mae'r canllaw ar gael yn yma.

Cymrwch amser i'w ddarllen gan fod yr addasiadau yr ydym wedi eu cynnwys yn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n galluogi cymhwyster am Dystysgrif DBS.

Peidiwch ag anghofio diweddaru copïau caled o'r canllaw allai fod mewn defnydd yn eich sefydliad.

Mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn rhestr o'r holl feini prawf cymhwyster neu'r holl rolau, ond mae'n rhoi'r dyletswyddau a rolau mwyaf cyffredin yr ydym yn derbyn ceisiadau ar eu cyfer i chi.

Os nad yw'ch rolau yn ymddangos yn y canllaw, neu os na allwch weld sut y byddai'n cyd-fynd â'r meini prawf, anfonwch e-bost at customerservices@dbs.gsi.gov.uk

Un peth olaf i'w gofio – ystyriwch y rôl yn ofalus cyn cyflwyno cais i sicrhau fod gennych hawl cyfreithlon i weld yr wybodaeth.

---

## Y Gwasanaeth Diweddaru: yn eich geiriau eich hun

Roeddem yn awyddus i wybod beth oeddech chi'n feddwl am ein Gwasanaeth Diweddaru, sydd wedi bod yn weithredol ers 17 Mehefin a, hyd yn hyn, mae 37,000 o ymgeiswyr wedi tanysgrifio. Dyma brofiadau tri o weithwyr yn eu geiriau eu hunain.

**Julie Shaw – Cyfarwyddwr (Vision for Education)**

"Mae hwn yn wasanaeth sy'n fuddiol i bawb. O safbwynt diogelu, gall ysgolion a rhieni fod yn hyderus ein bod wedi gwneud popeth posibl i sicrhau addasrwydd yr ymgeiswyr yr ydym yn eu cyflwyno i'w hysgolion.

"Mae gwiriad cofnod troseddol y DBS yn un rhan yn unig o'r broses ddiogelu, ond mae'n rhan allweddol ac mae ganddo broffil uchel. Trwy ofyn i ymgeiswyr ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru a thrwy eu helpu trwy'r broses, mae gennym fynediad at wybodaeth barhaus, i'r funud am statws yr ymgeisydd. Dim ond sicrhau fod yr wybodaeth yn gywir a chyfredol hyd at ddyddiad cyhoeddi'r dystysgrif allai'r system flaenorol. Nawr, mae fwy neu laiyn wybodaeth mewn amser real.

"Fel gyda phopeth newydd, roeddem angen deall y gwasanaeth cyn ei ddefnyddio. Fe ddefnyddiom y deunydd hyfforddi arbennig ar eich gwefan i hyfforddi ein tîm Diogelu, sy'n prosesu ein ceisiadau ymgeiswyr, a'n staff Cangen, sy'n cyflawni'r cyfweliadau wyneb yn wyneb, ymhell cyn y dyddiad lansio ar 17 Mehefin.

"Roedd yn rhaid i ni hysbysu'n ymgeiswyr a'r staff cyflenwi ar y pryd ynglŷn â'r gwasanaeth, y buddion a'r broses, ond rydym yn credu'n angerddol iddo fod yn werth yr ymdrech.

"Roedd hefyd angen i ni addasu rhai o'n gweithdrefnau a dulliau gweithredu – ond, eto, teimlwn fod hyn yn fuddsoddiad amhrisiadwy o ran y manteision diogelu.

"O ran mewngofnodi a gwirio statws ymgeiswyr mae'n hawdd iawn i'w ddefnyddio. Mae'r broses gofrestru hefyd yn hawdd i'w defnyddio unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi derbyn cyfarwyddyd llawn.

"Ar gyfer ymgeiswyr, mae yna arbediad cost amlwg, ar yr amod eu bod yn dal i danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru ac nad oes unrhyw newid o ran eu statws. Mae'r dystysgrif yn parhau i fod yn gyfredol. Mae hyn hefyd yn golygu y gellir eu harchwilio a'u clirio gan gyflogwyr posibl yn llawer cynt ac mae'n eu helpu i fanteisio ar unrhyw swydd.

“Hefyd, nid oes angen i ymgeiswyr gwblhau gwiriad newydd gyda chyflogwyr newydd, nac adnewyddu'r gwiriad yn gyfnodol - ond eto, dim ond os ydynt yn ymuno ac yn dal i danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru y bydd hyn yn berthnasol.

“Fel cyflogwr, rydym yn elwa o allu cynnig gwasanaeth mwy diogel i’n cleientiaid. Rydym wedi addasu ein gweithdrefnau i sicrhau’n bod yn gwirio’n rheolaidd nad yw statws ymgeiswyr wedi newid. Hefyd, gallwn gwblhau’r broses fetio yn gyflymach ac felly gynnig gwaith i ymgeiswyr yn gynt.

“Fel rhan o’n proses recriwtio, rydym yn gofyn i’n holl staff cyflenwi ymuno â’r Gwasanaeth Diweddaru os ydynt yn cwblhau gwiriad cofnod troseddol newydd. Rydym yn eu hatgoffa a’u helpu trwy’r broses nes eu bod wedi cofrestru’n llwyddiannus. Ar hyn o bryd, mae’n broses ddysgu ddwys i ymgeiswyr, ond rydym yn fwy na pharod i fuddsoddi’r amser i esbonio’r broses a’u cefnogi yn hyn. Ac yn ffodus, maent yn gweld y manteision ac yn barod i ymroi i ymuno â’r gwasanaeth.

“Gobeithiaf y bydd Asiantaethau Cyflenwi Athrawon eraill a sefydliadau perthnasol eraill yn gwneud yr un peth. Rwy’n credu’n gryf fod gan hyn y potensial i fod y newid mwyaf buddiol i’r broses o wirio cofnodion troseddol – ond er mwyn i bawb fanteisio, mae angen i ymgeiswyr ymuno â’r Gwasanaeth Diweddaru.”

**Owen Morgan, athro**

“Mae’r Gwasanaeth Diweddaru wedi bod yn hawdd iawn i’w ddefnyddio. Wedi i mi dderbyn fy nhystysgrif newydd, ymwelais â gwefan y DBS, rhoi rhai manylion i mewn ac roeddwn wedi tanysgrifio!”

**Barbara Ball – Rheolwr Datgeliad (Gwasanaeth Cynghori Diogelu Plant yr Eglwysi)**

“Mae Gwasanaeth Cynghori Diogelu Plant yr Eglwysi (CCPAS) yn elusen amddiffyn sy’n darparu cymorth a hyfforddiant i sefydliadau er mwyn diogelu plant ac oedolion bregus.

“Rydym yn gwasanaethu miloedd o sefydliadau elusennol a nifer o eglwysi, ysgolion ac academïau sy’n elwa’n sylweddol o’r Gwasanaeth Diweddaru. Maent yn cyflogi pobl (naill ai fel gweithwyr cyflogedig neu wirfoddolwyr) sydd wedi sicrhau gwiriad cofnod troseddol ar gyfer gwaith arall a gallant nawr ei gludo o un rôl i’r llall – cyn belled ag y sicrhawyd yr un lefel o wiriad.

“Mae wedi symleiddio ein proses recriwtio, gan leihau oedi er mwyn i’r cyflogwr allu llenwi’r swydd wag yn gyflym, ac nid oes rhaid i’r ymgeisydd aros nes y gall ddechrau

gweithio. Yn bwysig, mae hefyd yn arbed arian i gyflogwyr gan nad oes angen talu am wiriad arall neu adnewyddiad.

“Rydym yn derbyn ymholiadau newydd yn rheolaidd gan sefydliadau ynglŷn â’r gwasanaeth ac wedi diweddaru ein canllaw a’n gwefan i roi gwybodaeth glir iddynt, yn cynnwys dolen i’ch gwefan a fideos YouTube.

“Rydym yn annog cyflogwyr i gael caniatâd yr ymgeisydd i wirio ei dystysgrif ar-lein yn rheolaidd gyda’r Gwasanaeth Diweddaru. Gellir gwneud hyn yn llawer amlach nag oedd yn bosibl yn flaenorol gyda’r hen system.

“Rydym bob amser wedi cynghori sefydliadau  i wneud cais am ddatgeliadau newydd ar gyfnodau rheolaidd am nad ydym yn cael ein hysbysu’n awtomatig am unrhyw euogfarnau, rhybuddion, ceryddon neu wybodaeth berthnasol yr heddlu yn dilyn hynny. Mae hyn yn golygu heb y Gwasanaeth Diweddaru y gallai fod yn rhai blynyddoedd cyn i’r cyflogwr ddod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth arwyddocaol a allai greu risg i blant neu oedolion dan eu gofal. Gyda’r gwasanaeth, gall y cyflogwr wirio mor aml ag y dymuna heb orfod talu unrhyw gostau atodol. Mae’n rhaid i hyn fod yn newyddion da i bawb.

“Er i ni gyhoeddi canllaw a diweddaru ein gwefan, mae'n deg dweud mai araf y bu pobl yn ei defnyddio , er ein bod wedi derbyn adborth positif iawn gan sefydliadau sydd wedi defnyddio’r Gwasanaeth Diweddaru – dydyn nhw ddim yn credu pa mor hawdd ydi hi i gael mynediad at y system ar-lein.”